PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

GWRANDAWIAD CADARNHAU – 21 IONAWR 2012

BWRIAD COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD AR GYFER GOGLEDD CYMRU I BENODI PRIF WEITHREDWR

Cefndir

Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 (yr Atodlen) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Bwriad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i benodi Prif Weithredwr

Cynhaliodd y Panel wrandawiad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 yr Atodlen, fel rhan o raglen cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ddydd Llun, 21 Ionawr 2013.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn enwebu Anna Humphreys i swydd statudol Prif Weithredwr ei swyddfa.

Yn unol â Pharagraff 11 yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd bwriedig yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad.

Adolygodd y Panel y penodiad bwriedig a'r meini prawf roedd y Comisiynydd wedi eu defnyddio wrth benderfynu ar ei enwebiad i'r swydd statudol hon.

Cydnabu Aelodau fod gan Ms. Humphreys gryn brofiad o gyflenwi dyletswyddau statudol yr Awdurdod Heddlu ac roedd ganddi wybodaeth eang am ddiogelwch y gymuned a gwaith partneriaeth yn ystod ei hamser yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd ac yn ddiweddarach gydag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y Panel yn fodlon fod Ms. Humphreys wedi cyrraedd y meini prawf hynny.

Argymhellion

Dylid penodi Anna Humphreys yn Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mis Ionawr 2013